# Y GWASANAETHAU ADDYSG:

Mae'r Gwasanaethau Academaidd Myfyrwyr yn gyfrifol am sicrhau darparu ystod o wasanaethau academaidd o safon i fyfyrwyr a staff mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Arholiadau
- Asesu (pob lefel astudio, gan gynnwys rheoli Bwrdd Dyfarniadau a Dilyniant y Brifysgol, darparu cyngor ac arweiniad i staff a myfyrwyr ar y rheoliadau a'r gweithdrefnau asesu, camymddygiad academaidd, prosesu ceisiadau gan fyfyrwyr i ohirio arholiadau, i atal eu astudiaethau dros dro neu dynnu'n ôl o hastudiaethau neu drosglwyddo cwrs)
- Achosion Myfyrwyr (gan gynnwys apeliadau academaidd, camymddygiad academaidd, adolygiadau terfynol, cwynion, disgyblu, addasrwydd i ymarfer, urddas yn y gweithle, estyniadau, gwaharddiadau, tynnu'n ôl, trosglwyddo)
- Graddio

# CYLLID:

Mae'r Adran Gyllid yn darparu gwasanaeth cyllid sy'n effeithiol o ran cost, yn effeithlon ac yn broffesiynol, ac mae'n gyfrifol am gofnodi'r holl drafodion ariannol sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol. Yn datblygu ac yn gweithredu strategaethau ariannol deinamig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol i ategu nodau'r Brifysgol, wrth gynnal goruchwyliaeth a gweinyddiaeth ariannol gadarn wrth reoli materion ariannol y Brifysgol.




# ADNODDAU DYNOL:

Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cynnig ystod o wasanaethau gyda'r nod o gefnogi cydweithwyr a darpar ymgeiswyr o ran materion cyflogaeth. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyngor proffesiynol o safon, i ategu gwerthoedd a gweledigaeth y Brifysgol. Mae ein cymuned AD arobryn yn cynnwys tîm canolog sy'n gweithio ochr yn ochr â'n Partneriaid Busnes. Mae gan bob Cyfadran/Cyfarwyddiaeth Bartner Busnes a enwir.

# MRI:

Mae'r tîm Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol (MRI) yn ymrwymedig i hyrwyddo, dathlu a datblygu enw rhagorol Abertawe a'i chyflawniadau i'n rhanddeiliaid yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd.

MRI yw cartref recriwtio a derbyn myfyrwyr (y DU a rhyngwladol), marchnata, cyfathrebu, codi arian, datblygu a phartneriaethau academaidd. Mae pob tîm yn cyfrannu ei arbenigedd proffesiynol ei hun, gydag ymagwedd greadigol. Mae timau MRI yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, gyda thimau ledled y Brifysgol gyfan, a chyda phartneriaid allanol. Mae gan bob Cyfadran dîm MRI  sy'n gweithio ochr yn ochr â'r tîm MRI canolog i gynnig yr un swyddogaethau ond â ffocws ar y Gyfadran. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn tanategu cenhadaeth y Brifysgol o ran Ymchwil, Addysgu a Masnacheiddio a'i Chynllun Strategol i ddenu'r darpar fyfyrwyr gorau ac i hyrwyddo ein hymchwil ac addysgu rhagorol

# YSTADAU:

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadau a Gwasanaethau Campws yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli ystad y Brifysgol ac am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau hanfodol i gymuned y Brifysgol. Dyma dîm amlochrog o weithwyr proffesiynol profiadol sy'n darparu ystod eang o gymorth a gwasanaethau rheoli cyfleusterau ym Mhrifysgol Abertawe. Yn gweithio gyda myfyrwyr, staff a phartneriaid ym myd diwydiant i ategu gweledigaeth y Brifysgol i ddarparu profiad academaidd, cymdeithasol a diwylliannol rhagorol ar y campws.

# PSPU:

Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol:

Sefydlwyd yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol (PSPU) i gefnogi Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol a Bwrdd Rheoli'r Brifysgol i gyflawni eu nodau a'u huchelgeisiau strategol.

- Mae'r Uned yn hwyluso'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau strategol y Brifysgol drwy ystod o fentrau Newid Strategol.
- Mae'r Uned, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r holl Unedau Gwasanaethau Proffesiynol, Cyfadrannau Academaidd ac Ysgolion, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol allweddol, yn arwain ar brosesau cynllunio busnes gan gynnwys neilltuo adnoddau.
- Mae'r Uned yn cynnig adnodd rheoli prosiectau a risgiau proffesiynol i sicrhau bod prosiectau a gweithgareddau a ariennir yn allanol sy'n hanfodol i gyflawni Cynllun Strategol y Brifysgol yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae hefyd yn arwain ar y gwaith o greu a datblygu partneriaethau strategol sy'n cael effaith go iawn ar economi'r rhanbarth.

# GWASANAETHAU MYFYRWYR:

Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn dîm o arbenigwyr sydd wrth law i helpu myfyrwyr i ddatrys unrhyw anawsterau. Eu nod yw darparu gwasanaethau integredig a phroffesiynol sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ac sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth i alluogi pob myfyriwr i ddatblygu a chyflawni ei botensial yn llawn. Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnwys:

- Bywyd campws sy'n cynnwys Lles, Myfyrwyr Rhyngwladol, Ffydd, Caplaniaeth, Cymuned ac Arian
- Cymorth cynhwysol i fyfyrwyr sy'n cwmpasu anabledd, lles, asesiadau ac Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS).
- Llety
- ELTS – helpu myfyrwyr i wella eu sgiliau iaith.
- Canolfan Llwyddiant Academaidd – helpu myfyrwyr i lwyddo yn y Brifysgol.

# REIS:

Mae'r Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth proffesiynol i staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Mae gennym swyddfeydd ar y ddau gampws, tîm amrywiol a thra medrus wrth law i gefnogi cylch bywyd yr ymchwil, o syniadau ymchwil cychwynnol hyd at sicrhau grantiau, rheoli prosiectau, masnacheiddio ymchwil a datblygu syniadau busnes. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan REIS wedi'u hategu gan Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol

# SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR:

Darparu cymorth gweinyddol gweithredol i'r Is-ganghellor, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Is-gangellorion. Yn ogystal:

- Darparu gwasanaeth cyfreithiol mewnol i'r Brifysgol.
- Cymorth proffesiynol a chyfrifoldebau cydymffurfio o ran rheoliadau mewnfudo.
- Cefnogi'r Cyngor, y Senedd, y Llys (corff rhanddeiliaid y Brifysgol) ac amryw o bwyllgorau polisi a rheoli anacademaidd.
- Darparu Gwasanaeth Rheoli Cofnodion ar gyfer cofnodion corfforaethol y Brifysgol.



